
523



# CAN

AR

# DDRYLLIAD Y 'SCHILLER.'

*Agerlong ysblenydd perthynol i Germani, yr hon a gollwyd nos Wener, Mai 7fed, 1875, gerllaw y Bishop's Lights, Penzance, ar ei thaith o New York i Loegr. Yn y ddamwain dorcalonus hon, aeth dros dri chant o eneidiau i'r dyfrllyd fedd.*

1 Ffyrdd Duw sydd yn y moroedd,
Ac yn y dyfroedd mawr,
Uwch deall nac amgyffred
Preswylwyr daear lawr;
Olwynion ei ragluniaeth,
A'u hodiaeth droion cudd,
I bawb o'r teulu dynol
Yn fythol ddirgel sydd.

2 Mae rhai ar fryniau llwyddiant,
  Ac ereill dan y don,
Mae rhai'n mwynhau dedwyddwch
  Heb derfysg dan eu bron:
Ac ereill yn galaru
  Wrth yfed trwy eu hoes
O ddyfroedd chwerwon Mara,
  O! ddyfned yw eu loes.

3 'Roedd *crew* yr hoenus "Schiller"
  Yn cychwyn idd eu taith
O dref Caerefrog Newydd
  Heb ofni'r moryn maith;
Y llong farchogai'n nwyfus
  Y wen-don yn ddiofn,
A dawnsiai yn gysurus
  Ar frigau'r tonau dofn.

4. Yn iach, yn iach hwy ganent
  I fro'r gorllewin dir,
I'r fordaith hwy gychwynent
  A'u calon heb un cur;
'Roedd miwsig yr awelon
  Yn hwyliau'r "Schiller" lan,
Yn enyn yn eu calon
  Ryw nefol, ddwyfol dan.

5 Fel hyn y llong a hwyliai
  Yn nwyfus yn ei rhawd,
Heb feddwl byth y deuai
  I'w thynged unrhyw ffawd;

X205 231429

Meddyliai'r teithwyr gwrol
  I lanio yn Lloegr gu,
A rhai yn nhir Germania,
  Ond Ow ! nid felly bu.

6 Er cwrdd a llwyddiant perffaith
  Drwy'r fordaith olaf hon,
Nes cyrhaedd yn ddyogel
  I borthladd Plymouth bron ;
Ond Ow ! ar lanau Cernyw,
  Y noson dywell, ddu,
Fe d'rawai'r llong ar greigiau,
  Nes llwyr ddymchwelwyd hi.

7 O 'r gwaeddi a'r dolefain
  Yn awr sy'n mysg y gwyr,
Wrth wel'd mai eu tyngedfen
  Yw boddi'n ymyl tir !
Fe neidiai rhai yn wallgo'
  I'w claddu yn y don,
A chladdu eu holl obeithion
  Y nos fythgofus hon.

8 O ! famau calonrwygol
  A'u plant diniwed cu,
Yn awr y sydd yn gwylltio
  Yn ngwyneb angeu du :
Ymostwng raid er gwaeddi,
  Ac er gwallgofi bron ;
Ow ! bellach rhaid eu claddu
  Yn nyfnder dig y don.

9 Y cadben mwyn a'r meddyg
A gladdwyd yn yr aig,
Ac ereill a waredwyd
Ar ddanedd oer y graig ;
Ond O ! y tri chan' dewrion
A soddwyd yn y lli',
O ymyl eu hanwylion,
A'u hoer gwynfanus gri.

10 Fe ddaw ein hadeg ninau
I fyn'd i byrth y bedd ;
Rhaid myn'd i wyneb angeu,
A theimlo min ei gledd ;
Cael bod ar ddelw Iesu,
Ni ddygwydd niwed in'
Pan fyddom yn trafaelu
Yn unig yn y glyn.

*Ni chaniateir i neb argraffu y gân hon heb ganiatad yr Awdwr.*

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "SOUTH WALES PRESS."